Dduw cariad a chyfiawnder,
fe’n gelwaist i fod yn bobl i Ti,
yn bobl ddewr
nid yn rhai ofnus;
yn bobl sy’n gwarchod lles ein cymdogion
nid yn rhai sy’n meddwl am ein buddiannau ein hunain;
yn bobl hael
nid yn rhai barus;
yn bobl sy’n rhannu’r newydd da
nid yn rhai sy’n pedlera rhagfarn a chelwydd.
Wrth i ni fyw drwy’r cyfnod heriol hwn,
llanw ni â’th gariad a’th gyfiawnder
a gwna ni yn bobl i Ti.

Helpa ni i ymarfer ein ffydd,
gan weld gobaith yn y mannau mwyaf anobeithiol,
i feithrin parch a chefnogaeth tuag at eraill, yn arbennig y rhai sy’n fregus a thlawd,
i gadw’n pen ac ymwrthod â sibrydion di-sail,
i fanteisio ar bob cyfle i fyw ynghyd fel un teulu dynol,
i ddangos cyfrifoldeb, amynedd a thosturi,
i geisio heddwch â phob un,
a chan adnabod a dilyn dy arweiniad yn ein bywydau
ac ymddiried yn dy ddaioni sy’n gweithio bob amser er ein lles.

Gweddïwn am ddoethineb
i’r rhai sy’n gyfrifol am wneud penderfyniadau
fydd yn effeithio ar gynifer o bobl.
Gweddïwn dros y rhai sy’n dioddef ar ôl cael eu heintio
a phob un sy’n gofalu amdanynt.
Gweddïwn am amddiffynfa i’r hen a’r bregus
rhag peryglon y firws.
Gweddïwn y caiff camwybodaeth ei atal
fel na fydd ofn yn gafael mewn calonnau a meddyliau.

Helpa ni i ddal ati i weithio dros dy deyrnas
i gydsefyll a chydgerdded gyda phob un sy’n gorfod byw gyda thrais ac anghyfiawnder,
i beidio â rhuthro yn ôl i’n hen ffyrdd,
ond i ailadeiladu gyda’n gilydd
ar sail cyfiawnder, cydraddoldeb a heddwch i bawb.

Dduw cariad a chyfiawnder,
fe’n gelwaist i fod yn bobl i Ti,
yn rhoi ac yn caru,
lle bynnag yr ydym,
beth bynnag fo’r gost
faint bynnag mae’n cymryd
i ba gyfeiriad bynnag yr wyt yn ein galw.

Yn enw Iesu, yr un sydd trwy ei gleisiau yn dwyn iachâd i’r byd. Amen.